**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1372/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

9 Mehefin 2025

Annwyl Mike, Andrew,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025, a'u gosod. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd imi ysgrifennu at eich pwyllgor i roi hysbysiad o'm bwriad i gydsynio i'r Rheoliadau fel y nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd drafft terfynol y Rheoliadau ddiwedd yr wythnos ddiwethaf wedi trafodaethau rhynglywodraethol.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiadau i ofyn am labelu "nid ar gyfer yr UE" ar gynhyrchion bwyd a diod marchnad penodol Prydain Fawr gyda'r gofyniad i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn gwneud penderfyniad.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau yn:

- Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Pwrpas y Rheoliadau yw darparu ar gyfer pŵer wrth gefn i gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer cynhyrchion bwyd penodol ym Mhrydain Fawr. Byddai'r mesur hwn yn cael ei ddeddfu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod cyflenwad rhai nwyddau manwerthu i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon mewn perygl ac yn ystyried bod angen ymyrraeth i ddiogelu'r cyflenwad bwyd i bobl Gogledd Iwerddon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bwriad y posibilrwydd o gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer marchnad Prydain Fawr, yw cymell manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion labelu ar gyfer nwyddau sy'n cael eu symud i Ogledd Iwerddon gan fusnesau o Brydain Fawr. Byddai hyn yn dileu unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer dad-restru cynhyrchion yng Ngogledd Iwerddon yn hytrach na'u labelu, a thrwy hynny yn diogelu llif nwyddau i Ogledd Iwerddon.

Byddai'r gofyniad am labelu wedi'i dargedu at gynhyrchion penodol yn hytrach na'r dull cyffredinol yr ymgynghorodd Llywodraeth flaenorol y DU arno ym mis Chwefror 2024. Bydd busnesau bach wedi'u heithrio o'r gofynion hyn.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, er mwyn mabwysiadu dull cyson a chydlynol sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymiadau i ddiogelu'r cyflenwad o fwyd i Ogledd Iwerddon, y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, rwy'n ystyried ei bod yn briodol cydsynio i osod y Rheoliadau hyn. Rwyf ar ddeall bod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cytuno i gydsynio.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2025 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar benderfyniad dau Dŷ Senedd y DU i gymeradwyo'r OS.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma.

Unwaith eto, mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor cyn i'r Rheoliadau gael eu gosod.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs